# Bundle Health Board - Welsh 10 July 2024

1 BUSNES AGORIADOL

2 24/132 Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb- Ar lafar - Cadeirydd

3 24/133 Datganiadau o Fuddiant - Ar lafar - Cadeirydd

4 ADRODDIAD BLYNYDDOL

5 24/134 Cyfrifon ariannol blynyddol 2023-24 - Ynghlwm - Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid

6 24/135 Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ISA 260 - Ynghlwm - Archwilio Cymru

7 24/136 Barn Pennaeth Archwilio Mewnol - Ynghlwm - Pennaeth Archwilio Mewnol

8 24/137 Adroddiad Blynyddol 2023-24 - Ynghlwm - Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
*Gofynnir i'r Bwrdd:*
*DERBYNAdroddiad Blynyddol 2023-24, Rhan 1 a 2 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol*
*CYMERADWYO Adroddiad Blynyddol 2023-24 yn barod i'w gyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru; a*
*CYMERADWYO Llythyr Cynrychiolaeth i'w lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ar ran y Bwrdd.*

24.137 Adroddiad Blynyddol 2023-24

9 24/138 Dyddiad y cyfarfod nesaf 25 Gorffennaf 2024

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Adroddiad Blynyddol 2023-2024 |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Y Bwrdd Iechyd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | Dydd Mercher 10 Gorffennaf 2024 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Gofynnir i'r Bwrdd, yn y lle cyntaf, gymeradwyo elfennau unigol Adroddiad Blynyddol 2023/24 y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau ei fod yn cyfleu, yn unol â'r canllawiau yn Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru 2023/24, ddadansoddiad o'r prif fusnes, perfformiad ac atebolrwydd, cyflawniadau allweddol a llwyddiannau'r sefydliad rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.<br><br>Mae'r cydrannau hyn wedi cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan Bwyllgorau'r Bwrdd cyn cyfarfod y Bwrdd. Maent wedi'u casglu i'r Bwrdd eu cymeradwyo yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/24 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd i'w cyflwyno yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi 2024 a bydd y cyfrifon terfynol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, y Datganiad o Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr ac Adroddiad Tâl i Lywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno erbyn 15 Gorffennaf 2024.<br><br>Mae'r cynnwys yn cynnwys Drafft terfynol o: 1. Yr Adroddiad Perfformiad; 2 . Yr Adroddiad Atebolrwydd, gan gynnwys: a. Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol b. Adroddiad Tâl ac Adroddiad Staff c. Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio.<br><br>Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) yn rhan o adran Adroddiad Atebolrwydd yr Adroddiad Blynyddol hwn, ac mae'n rhoi adroddiad manwl ar ein llywodraethu, trefniadau rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol. Mae'r AGS wedi'i dderbyn a'i adolygu gan y Tîm Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a chydweithwyr gan gynnwys y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Is-Gadeirydd.<br><br>Ochr yn ochr â'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2023/24 mae angen cymeradwyaeth ffurfiol ar y dogfennau hyn cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 12 Gorffennaf 2024 yn unol â Gofynion Trysorlys EF.<br><br>Mae fersiynau Drafft Terfynol o'r dogfennau sydd ynghlwm yn ymgorffori'r holl sylwadau ac adborth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, Archwilwyr ac Aelodau'r Bwrdd. Mae fersiynau drafft a therfynol o'r dogfennau hyn wedi'u hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio.<br><br>Mae'n bwysig nodi y bydd y dogfennau'n cael eu cyhoeddi i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg a chyn gynted ag y bydd y dogfennau wedi'u gosod bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud a'i gwblhau. |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Bwrdd:<br>• **DERBYN** Adroddiad Blynyddol 2023-24, Rhan 1 a 2 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• **CYMERADWYO** Adroddiad Blynyddol 2023-24 yn barod i'w gyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru; a |

<table>
<tr><td></td><td colspan="4">• CYMERADWYO Llythyr Cynrychiolaeth i'w lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ar ran y Bwrdd.</td></tr>
<tr><td>Arweinydd Gweithredol:<br><br>Executive Lead:</td><td colspan="4">Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol</td></tr>
<tr><td>Awdur yr Adroddiad:<br><br>Report Author:</td><td colspan="4">Phil Meakin - Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu</td></tr>
<tr><td>Pwrpas yr adroddiad:<br>Purpose of report:</td><td>I'w Nodi<br>For Noting<br>☒</td><td colspan="2">I Benderfynu arno<br>For Decision<br>☒</td><td>Am sicrwydd<br>For Assurance<br>☒</td></tr>
<tr><td>Lefel sicrwydd:<br><br>Assurance level:</td><td>Arwyddocaol<br>Significant<br>☐<br>Lefel uchel o hyder / tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</td><td>Derbyniol<br>Acceptable<br>☒<br>Lefel gyffredinol o hyder / tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Rhannol<br>Partial<br>☐<br>Rhywfaint o hyder / tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Dim Sicrwydd<br>No Assurance<br>☐<br>Dim hyder / tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>No confidence / evidence in delivery</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:<br><br>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:<br><br>Link to Strategic Objective(s):</td><td colspan="3">1. Adeiladu sefydliad effeithiol<br>2. Datblygu strategaeth a newid parhaol<br>3. Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad tosturiol<br>4. Gwella ansawdd canlyniadau a phrofiad<br>5. Sefydlu amgylchedd dysgu effeithiol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Goblygiadau rheoleiddio a lleol:<br><br>Regulatory and legal implications:</td><td colspan="3">Mae dyletswydd statudol o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi Adroddiad Blynyddol a chyfrifon ariannol o fewn chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?<br><br>In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?<br><br>In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Methiant i gyflawni'r dyletswyddau statudol a ddisgrifir uchod ac amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Amherthnasol |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Roedd adolygiad/ymgynghoriad ar gynhyrchu'r ddogfen hon yn cynnwys;<br>1 Tîm Gweithredol<br>2 Pwyllgor Archwilio ym mis Mai<br>3 Archwiliad Mewnol<br>4 Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a'r Prif Weithredwr.<br><br>Mae adborth o'r adolygiadau hyn wedi'i ddefnyddio i lywio'r fersiwn a gyflwynwyd i'r Bwrdd heddiw. |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Mae Risgiau BAF 2023/24 yn cwmpasu'r canlynol **Risgiau BAF SP16 Arweinyddiaeth a Llywodraethu Byrddau -** Mae risg o fethu â chryfhau trefniadau'r Bwrdd yn effeithiol yn dilyn mesurau arbennig a gweithredu llywodraethu hanfodol, atebolrwydd, cynllunio, a gwelliannau perfformiad. |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol |

***Camau Nesaf:***

- Bydd tair rhan yr adroddiad blynyddol yn cael eu cyfuno a bydd y gwiriadau priodol yn cael eu cwblhau cyn ei gyflwyno.
- Cwblhau Llofnodi'r Datganiadau Ariannol, yr Adroddiad Blynyddol a'r Llythyr Cynrychiolaeth yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd a'u cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru erbyn 12 Gorffennaf 2024.
- Yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (wedi'i drefnu ar gyfer 12 Gorffennaf 2024), mae Cyfrifon Blynyddol Archwiliedig 2023/24 i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 15 Gorffennaf 2024 gan Archwilio Cymru.
- Bydd yr Adroddiad Blynyddol terfynol yn cael ei gyflwyno yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol BIPBC ar 25 Medi 2024 a bydd hwn yn cynnwys Crynodeb o'r Adroddiad Blynyddol.

| |
|---|
| • Symud ymlaen â'r gwaith o gyfieithu dogfennau i'r Gymraeg. |
| **Rhestr o Atodiadau:**<br>***List of Appendices:***<br>• Atodiad 1 - Adroddiad Blynyddol 2023-24 (gan gynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol) |

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023/24

### 1. PWRPAS:

Cyflwyno Rhan 1 a 2 Adroddiad Blynyddol 2023-24 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Bwrdd a fydd, ynghyd â Chyfrifon Blynyddol 2023-24 yn cael eu cyflwyno ar ei ffurf derfynol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi 2024. Mae'r ddogfen ar gael yn Atodiad 1.

Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- **DERBYN** Rhan 1 a 2 Adroddiad Blynyddol 2023-24 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- **CYMERADWYO** Adroddiad Blynyddol 2023-24 yn barod i'w gyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru; a
- **CYMERADWYO'R** Llythyr Cynrychiolaeth i gael ei lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ar ran y Bwrdd.

### 2. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae cynnwys y ddogfen yn cynnwys copi Drafft terfynol o'r canlynol: 1. Yr Adroddiad Perfformiad; 2. Yr Adroddiad Atebolrwydd, gan gynnwys: a. Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol b. Adroddiad Tâl a Staff c. Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS), a ddarperir fel atodiad o'r ddogfen hon, yn rhan o'r adran Adroddiad Atebolrwydd yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Ochr yn ochr â'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2023/24, mae gofyn i'r dogfennau hyn gael eu cymeradwyo'n ffurfiol cyn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 12 Gorffennaf 2024 yn unol â Gofynion Trysorlys Ei Fawrhydi.

Mae'r fersiynau drafft terfynol yn ymgorffori'r holl sylwadau ac adborth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, Archwilwyr ac Aelodau'r Bwrdd. Mae fersiynau drafft a therfynol o'r dogfennau hyn wedi cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio.

Mae Aelodau'r Bwrdd wedi derbyn copi o'r Adroddiad Blynyddol cyn cyhoeddi'r papurau hyn er mwyn sicrhau bod digon o amser i'r Bwrdd ei adolygu.

### 3. PRIF NODWEDDION YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

#### 3.1 Yr Adroddiad Perfformiad

Pwrpas adran perfformiad yr adroddiad blynyddol yw darparu gwybodaeth am yr endid, ei brif amcanion a strategaethau a'r prif risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae gofynion yr adroddiad perfformiad yn seiliedig ar y materion y mae'n ofynnol ymdrin â nhw mewn Adroddiad Strategol fel y'i hamlinellir ym Mhennod 4A Rhan 15 Deddf Cwmnïau 2006. Dylai endidau cyhoeddus gydymffurfio â'r Ddeddf fel y'i haddasir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) a'r Llawlyfr hwn: h.y. dylent ymdrin â'u hunain fel pe baent yn gwmnïau rhestredig. Dylai prif nodweddion yr adroddiad perfformiad lifo o gynllun cytunedig y sefydliad a dangos sut maent wedi cyflawni yn erbyn y cynllun hwnnw yn ystod y flwyddyn adrodd

Mae'n rhaid i'r adroddiad perfformiad ddarparu dadansoddiad teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad yr endid, yn unol â gofyniad cyffredinol yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol i fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Pan fo cyrff y GIG yn barnu y byddai defnyddwyr yr Adroddiad Perfformiad yn elwa ar ragor o wybodaeth, mae'n dderbyniol cynnwys hyperddolenni i unrhyw adroddiadau perthnasol eraill fel IMTP sefydliadau eraill neu ystadegau perfformiad cyhoeddedig eraill. Mae archwilwyr wedi adolygu'r adroddiad perfformiad am gysondeb â gwybodaeth arall yn y datganiadau ariannol. Caiff yr adroddiad perfformiad ei lofnodi a'i ddyddio gan y Swyddog Atebol/Prif Weithredwr.

**3.2 Yr Adroddiad Atebolrwydd**

Pwrpas yr adran atebolrwydd yn yr adroddiad blynyddol yw bodloni gofynion atebolrwydd allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae gofynion yr adroddiad atebolrwydd yn seiliedig ar y materion y mae'n ofynnol ymdrin â nhw mewn Adroddiad Cyfarwyddwyr, fel y'i hamlinellir ym Mhennod 5 Rhan 15 Deddf Cwmnïau 2006 ac Atodlen 7 o SI 2008 Rhif 410, ac mewn Adroddiad Tâl, fel y'i hamlinellir ym Mhennod 6 Deddf Cwmnïau 2006 ac Atodlen 8 o SI 2008 Rhif 410. Mae gofynion Deddf Cwmnïau 2006 wedi cael eu haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus a dim ond endidau nad ydynt yn gwmnïau i'r graddau eu bod wedi'u hymgorffori i'r Llawlyfr hwn sydd angen eu dilyn.

Bydd archwilwyr yn adolygu'r adroddiad atebolrwydd am gysondeb â gwybodaeth arall yn y datganiadau ariannol a byddant yn rhoi barn ar y datgeliadau canlynol a ddylai gael eu rhestru'n glir fel rhai sydd wedi'u harchwilio yn yr adroddiad atebolrwydd:

- Cyfanswm ffigur unigol tâl pob cyfarwyddwr
- Datgeliadau Gwerthoedd Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod ar gyfer pob cyfarwyddwr
- Taliadau i gyn gyfarwyddwyr, os yw'n berthnasol
- Taliadau am golli swydd, os yw'n berthnasol
- Datgeliadau cyflog teg (Wedi'u cynnwys yn Cyfrifon Blynyddol)
- Pecynnau ymadael, (wedi'u cynnwys yn y Cyfrifon Blynyddol) os yw'n berthnasol a
- Dadansoddi niferoedd staff.

Mae gofyn i'r Adroddiad Atebolrwydd fod â thair adran:

a) **Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol**
Pwrpas yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu'r endid a sut maent yn ategu cyflawni amcanion yr endid.

b) **Adroddiad Tâl a Staff**
Mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG baratoi Adroddiad Tâl. Mae’r Adroddiad Tâl yn cynnwys gwybodaeth am dâl uwch reolwyr. Diffiniad "Uwch Reolwyr" at y dibenion hyn yw: "yr unigolion hynny mewn swyddi uwch, gydag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfeirio neu reoli prif weithgareddau corff y GIG. Mae hyn yn golygu y rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r endid cyfan yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol.'

c) **Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio**
Dylai'r Adroddiad Atebolrwydd Seneddol gynnwys datgeliad ar y canlynol:

- Rheoleidd-dra gwariant
- Ffioedd a thaliadau (os yw'n berthnasol)
- Rhwymedigaethau digwyddiadol o bell
- Tystysgrif Archwilio ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. Caiff yr Adroddiad Atebolrwydd ei lofnodi a'i ddyddio gan y Swyddog Atebol/Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a Chadeirydd y Bwrdd.

### 3.3 Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS), a ddarperir fel Atodiad i'r ddogfen hon, yn rhan o adran Adroddiad Atebolrwydd yr Adroddiad Blynyddol, ac mae'n rhoi adroddiad manwl ar ein trefniadau llywodraethu, rheoli risg a systemau rheoli mewnol. Mae'r AGS wedi cael ei dderbyn a'i adolygu gan y Tîm Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a chydweithwyr gan gynnwys Pennaeth Archwilio Mewnol ac mae'r Is-gadeirydd wedi rhoi cymorth trwy gynnal adolygiad pen bwrdd.

Mae Llawlyfr GIG Cymru ar gyfer Cyfrifon yn argymell y cynnwys a ganlyn mewn AGS

1. Cwmpas Cyfrifoldeb
2. Ein Fframwaith Llywodraethu
3. Pwrpas ein System Rheoli Mewnol
4. Gallu i Ddelio â Risg
5. Y Fframwaith Rheoli
6. Trefniadau cynllunio
7. Datganiadau ar Ddatgelu
8. Adolygu Effeithiolrwydd
   Archwilio Mewnol
   Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru
9. Casgliad
10. Atodiadau. Dylai'r canlynol ymddangos fel atodiadau yn hytrach nag ym mhrif gorff y Datganiad Llywodraethu.
   a. Cyf. Tabl aelodaeth a phresenoldeb
   b. Cyf. Cynnwys Tabl Cworwm
   c. Rhestr o Gyfarwyddiadau Gweinidogol

Mae'r AGS yn dilyn y drefn hon. Mae iddo hefyd gynnwys sy'n benodol i'r cyd-destun sefydliadol megis bod yn destun Mesurau Arbennig. Yn ogystal, wrth baratoi'r AGS, cafodd asesiad ar gydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ei gyflwyno yn y Pwyllgor Archwilio ar 21 Mai 2024. Roedd hyn yn cynnwys hunanasesu manwl yn erbyn y meini prawf sy'n ymwneud â Byrddau Iechyd. Gwnaeth y Pwyllgor Archwilio nodi a chefnogi asesu cydymffurfiaeth a chytunodd y gallai'r asesiad gael ei adlewyrchu yn yr adroddiad atebolrwydd.

## 4. CAMAU NESAF

- Bydd tair rhan yr adroddiad blynyddol yn cael eu cyfuno a bydd y gwiriadau priodol yn cael eu cwblhau cyn ei gyflwyno.

- Bydd tair rhan yr adroddiad blynyddol yn cael eu cyfuno a bydd y gwiriadau priodol yn cael eu cwblhau cyn ei gyflwyno.

- Cwblhau Llofnodi’r Datganiadau Ariannol, yr Adroddiad Blynyddol a’r Llythyr Cynrychiolaeth yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd a’u cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru erbyn 12 Gorffennaf 2024.

- Yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (wedi'i drefnu ar gyfer 12 Gorffennaf 2024), mae Cyfrifon Blynyddol Archwiliedig 2023/24 i’w cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 15 Gorffennaf 2024 gan Archwilio Cymru.

- Bydd yr Adroddiad Blynyddol terfynol yn cael ei gyflwyno yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol BIPBC ar 25 Medi 2024 a bydd hwn yn cynnwys Crynodeb o'r Adroddiad Blynyddol.

- Symud ymlaen â'r gwaith o gyfieithu dogfennau i'r Gymraeg.